



Drwy ebost

24 Hydref 2019

Annwyl Mabli Siriol

Fel y trafodwyd yn ein cyfarfod, dyfarnwyd y cymhwyster TGAU Cymraeg Ail Iaith diwygiedig am y tro cyntaf yr haf hwn. Er na fwriadwyd iddo fynd i'r afael â holl argymhellion adroddiad yr Athro Sioned Davies, mae'n gwneud cynnydd gwirioneddol ac yn mynd i'r afael â'r pwyntiau a ddisgrifir yn Argymhelliad 11 yr adroddiad, sy'n ymwneud yn uniongyrchol â dyluniad cymwysterau. Yn wir, roedd yr Athro Davies yn rhan o'n gweithgor a oedd yn edrych ar ddyluniad y cymhwyster newydd.

Mae'r TGAU Cwrs Byr Cymraeg Ail Iaith wedi dod i ben, felly bydd pob dysgwr sy'n cymryd cymhwyster Cymraeg Ail Iaith yr haf hwn wedi cymryd y TGAU llawn.

Mae llawer o'r newidiadau sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad yn dibynnu ar y Cwricwlwm i Gymru - rhan ganolog o bolisi addysg Llywodraeth Cymru fel ei mynegir yn 'Addysg yng Nghymru - Ein Cenhadaeth Genedlaethol'.

Bydd y cwricwlwm newydd, sydd ar ffurf ddrafft yn unig ar hyn o bryd, yn gosod sylfaen ar gyfer newidiadau mwy sylweddol i gymwysterau. Ein rôl ni yw adolygu'r gofynion ar gyfer cymwysterau yn 16 oed fel eu bod yn cyd-fynd â'r cwricwlwm, gan gynnwys unrhyw rai sy'n dod o gyflwyno continwwm Cymraeg.

Rydym wedi bod yn glir gyda chi ein bod yn gweld yr angen am newidiadau i gymwysterau Cymraeg, ond rhaid i hyn gael ei arwain gan y cwricwlwm. Mae'n hanfodol bod aliniad â'r cwricwlwm newydd, felly rydym yn dibynnu ar eglurder newidiadau y cwricwlwm cyn y gallwn ddatblygu cynigion ar gyfer cymwysterau

Qualifications Wales

Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222



Cymwysterau Cymru

Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

newydd. Rydym ar fin ymgynghori ar yr egwyddorion arweiniol a fydd yn sail i'r cynnig cymwysterau yn y dyfodol ar gyfer pobl ifanc 16 oed, gan gynnwys cryfhau'r safbwynt o ran argaeledd cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel yr esboniwyd yn ddiweddar, rydym yn bwriadu ymgynghori ar gynigion penodol ar gyfer cymwysterau yn Gymraeg y flwyddyn nesaf, unwaith y bydd gofynion y cwricwlwm a'r continwmm iaith yn glir.

Yn ein cyfarfod nid oeddwn yn barod i ymrwymo i dreialu cymhwyster Cymraeg newydd nac i'w gyflwyno'n gynharach. Ni wnes i ychwaith ddiystyru dulliau posibl hyn. Fodd bynnag, nid wyf yn barod i ymrwymo i'r naill na'r llall nes bod gennym fwy o eglurder ynghylch yr hyn yr ydym yn ei gynnig a bod ein cynigion wedi'u profi trwy ymgynghoriad cyhoeddus. Yna bydd angen i ni feddwl am yr opsiynau ar gyfer treialu neu beilota (fel y trafodwyd yn y cyfarfod mae gwahaniaeth cynnil ond pwysig rhwng y dulliau hyn) a phryd y gallai unrhyw newidiadau gael eu cyflwyno.

Wrth drafod eich cynnig i gyflwyno un cymhwyster ar gyfer pob dysgwr, roeddwn i, fel y gwyddoch, yn rhannu meddyliau am y risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yn unig. Byddwn yn archwilio'r holl opsiynau wrth inni ddatblygu ein cynigion a phrofi opsiynau yn ein hymgyngoriad cyhoeddus; bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau dilynol yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn y cyfamser, mae'n iawn ystyried risgiau posibl a chanlyniadau anfwriadol unrhyw gynnig.

Mae ein safbwynt yn glir; rydym yn gefnogol o bolisi Llywodraeth Cymru i gyflwyno continwmm un iaith i ddysgwyr. Ein rôl fydd ystyried yr opsiynau ar gyfer cymwysterau sy'n cefnogi'r nod hwn. Rydym hefyd yn glir bod hwn yn faes blaenoriaeth. Lle mae gennym wahaniaeth barn yw ynghylch sut i fynd ati i wneud y newidiadau angenrheidiol.

Yn gywir



Philip Blaker
Prif Weithredwr